**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | L S Gibbard |
| M H Jones | R D Lewis | P B Smith |
| A H Stevens | D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis a/ac T M White

---

**49 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd D W W Thomas – Personol – Cofnod Rhif 53 – Eitem 2 – 2018/2368/FUL – mae ei chwaer yn breswyliwr yn Campion Gardens.

**50 Cofnodion.**

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

**51 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim.

**52 Cadarnhad o Dir GCC653 yn: Clôs Coed Collings a Ffordd yr Olchfa.**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio adroddiad a oedd yn gofyn i aelodau ystyried y GCC 653 dros dro i'w gadarnhau'n orchymyn llawn ar dir yng Nghlos Coed Collings a Ffordd yr Olchfa, Sgeti.

Amlinellwyd a manylwyd ar gefndir gwneud y gorchymyn dros dro a'r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y cynigion yn yr adroddiad.

Amlinellwyd yr amserlenni mewn perthynas â'r gorchymyn dros dro i'r pwyllgor.

Siaradodd Paul Jones yn erbyn y cynigion i roi'r gorchymyn mewn perthynas â choeden yn ei ardd gefn.

**Penderfynwyd** cadarnhau'r GCC 653 ar dir yng Nghlos Coed Collins a Ffordd yr Olchfa (2018), gan newid lleoliad C5 yn Atodlen Un i "o flaen 70 Ffordd yr Olchfa", gan hepgor coed C9 a C10.

**53 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd:** -

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod (#):

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2017/2709/FUL - Codi 41 o anheddau (100% tai fforddiadwy) - yn cynnwys 31 o dai, 2 bâr o fyngalos pâr ac 8 fflat gyda thirlunio, mynediad, parcio a gwaith cysylltiedig. (Cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth ychwanegol) ar dir oddi ar Ffordd George Manning, Tre-gŵyr, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Jon Hurley (asiant), Alex Williams (preswyliwr lleol), a Shelley Adams (gwrthwynebydd).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd S M Jones (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae ail baragraff tudalen 65 yn dweud ar gam "Rhagwelir y bydd hyn yn disgyn i 54 o leoedd erbyn 2014."
Dylai hyn ddarllen "Rhagwelir y bydd hyn yn disgyn i 54 o leoedd erbyn 2024."

Adroddwyd am un llythyr gwrthwynebu hwyr.

Cymeradwywyd y cais yn amodol ar gwblhau Adran 106 y Rhwymedigaeth Gynllunio.

**#(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2018/2368/FUL - dau fyngalo byw â chymorth yng Nghartref Nyrsio a Phreswyl Campion Gardens, Heol Mayals, Comin Clun, Mayals, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Rhaid ychwanegu amod ychwanegol at yr argymhelliad fel a ganlyn:
Bydd y ddau fyngalo a gymeradwyir trwy hyn yn cael eu defnyddio fel byngalos byw â chymorth ar y cyd â chyfadeilad Nyrsio a Phreswyl Campion Gardens.

Rheswm: Diffinio cwmpas y caniatâd cynllunio hwn yn glir a sicrhau na ddefnyddir y byngalos fel tai marchnad anghyfyngedig yn y lleoliad hwn mewn cefn gwlad agored.

**(Eitem 3) – Caniatâd Cynllunio 2018/2705/FUL - Newid defnydd o fflat 2 ystafell wely a HMO 5 ystafell wely (Dosbarth C3/C4) i HMO 8 ystafell wely yn rhif 9 Cilgant Brynmill, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Matthew Gray (asiant).

Daeth y cyfarfod i ben am 3.21 pm

Daeth y cyfarfod I ben am 3.21 pm

**Cadeirydd**